# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 11 Rhagfyr 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 249(v4)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni chafwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i ddirymu Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019 - TYNNWYD YN ÔL

(0 munud)

**NDM7209** David Melding (Canol De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:

Yn cytuno bod Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 15 Tachwedd 2019, yn cael eu dirymu.

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Lefelau Staff Nyrsio

(60 munud)

**NDM7215 Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Cynnydd a Her: Gweithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

2. Yn nodi bod mwy o nyrsys yn gadael y GIG nag sy'n ymuno.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut y bydd GIG Cymru yn cynyddu'r cyfleoedd i weithio'n hyblyg fel rhan o strategaeth genedlaethol ar gyfer cadw nyrsys.

Cynnydd a Her: Gweithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

**Cyd-gyflwynwyr**
**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**
**David Rees (Aberafan)**

**Cefnogwyr**
**Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)**

## 7 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Mynediad at Fancio

(60 munud)

**NDM7219 Russell George (Sir Drefaldwyn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei Ymchwiliad i: Mynediad at Fancio a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2019.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 4 Rhagfyr 2019.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Addysg Ysgol

(60 munud)

**NDM7218** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi canlyniadau PISA 2018 y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

2. Yn gresynu:

a) na fu unrhyw welliant ystadegol sylweddol yn sgoriau PISA Cymru mewn darllen a mathemateg ers 2006;

b) bod sgoriau Gwyddoniaeth Cymru yn sylweddol waeth nag yn 2006;

c) bod Cymru wedi'i gosod ar waelod gwledydd y DU mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth;

d) mai Cymru yw'r unig genedl yn y DU sydd â sgôr is na chyfartaledd yr OECD ym mhob un o fesurau PISA.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cydnabod ei methiant i wella addysg yng Nghymru;

b) ymddiheuro i ddisgyblion, rhieni ac ysgolion am eu siomi;

c) gwarantu bod adnoddau ychwanegol yn deillio o wariant ychwanegol ar ysgolion gan Lywodraeth y DU yn cael ei fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi mai Cymru yw'r unig genedl yn y DU i wella ym mhob maes.

Yn croesawu:

a) sgoriau gorau Cymru erioed mewn darllen a mathemateg, a gwelliant mewn gwyddoniaeth;

b) gostyngiad yn y bwlch rhwng ein dysgwyr mwyaf difreintiedig a'u cyfoedion;

c) gwelliant ym mherfformiad myfyrwyr uchel eu perfformiad.

Yn credu bod y gwelliant yn sgoriau PISA yn brawf o waith caled athrawon a disgyblion ledled Cymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2  ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) barhau ar y trywydd o ddiwygio’r cwricwlwm newydd a gadael iddo wreiddio fel rhan o’r ymgais i godi safonau;

b) gwarantu bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i ysgolion er mwyn gallu gwella amodau gwaith athrawon ac i ddenu mwy o athrawon newydd i’r proffesiwn.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7220** Vikki Howells (Cwm Cynon)

Mynd i'r afael â heriau gofal yr unfed ganrif ar hugain.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 7 Ionawr 2020